

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Albany Medical Clinic (Pontypridd)

Dyddiad y gweithgarwch: 04 Chwefror
2021

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mawrth 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Albany Medical Clinic fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r clinig wedi'i leoli ym Mhontypridd, ac mae'n darparu gwasanaethau rheoli pwysau i gleifion 18 oed a throsodd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ar 04 Chwefror 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. ¹ Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a phrosesau i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.
- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut mae'r clinig a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?

¹ Ystyr rheolwr cofrestredig yw unigolyn sydd wedi'i benodi o dan Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 fel rheolwr sefydliad.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg diweddar a gofyn i'r lleoliad am y newidiadau a wnaed mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn cynnal diogelwch ac urddas cleifion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y ffordd y mae'r clinig wedi addasu er mwyn ymateb i heriau COVID-19. Caewyd y clinig ym Mhontypridd ar y dechrau rhwng mis Mawrth a mis Mai 2020. Dywedwyd wrthym fod newidiadau wedi'u gwneud y tu mewn i'r clinig yn ystod y cyfnod hwn er mwyn helpu i liniaru achosion o groesheintio a sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol diogel ar ôl ailagor. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys sticeri a phosteri'n cael eu harddangos ar y llawr ac ar y waliau i atgoffa'r cleifion o'r canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol, a gosodwyd sgrin glir ar ddesg y dderbynfa. Esboniodd y rheolwr cofrestredig mai dim ond un claf a ganiateir yn y clinig ar y tro (gan fod y lleoliad yn fach) er mwyn helpu i gadw pellter cymdeithasol, ac mae'n rhaid i gleifion a staff wisgo masgiau wyneb bob amser. Dywedwyd wrthym hefyd fod y clinig wedi prynu peiriant pwysedd gwaed awtomatig newydd sy'n galluogi'r cleifion i gymryd eu pwysedd gwaed eu hunain yn ystod ymgynghoriadau gan gadw pellter cymdeithasol oddi wrth y staff clinigol.

Gwelsom fod y trefniadau hyn wedi cael eu dogfennu mewn Asesiad Risg Diogel o ran Covid-19 a gafodd ei gwblhau ym mis Mai 2020. Pwysleisiodd yr asesiad risg y risgiau posibl i gleifion a staff o ran trosglwyddo COVID-19, gan nodi'r camau a roddwyd ar waith yn y clinig er mwyn helpu i liniaru pob risg.

Dywedwyd wrthym mai dim ond drwy apwyntiad y gellir dod i'r clinig. Rhoddir gwybod i gleifion newydd am y gweithdrefnau COVID-19 sydd ar waith yn y clinig dros y ffôn cyn iddynt ddod i'w hapwyntiad. Caiff y cleifion eu hatgoffa hefyd i beidio â dod i'r clinig os bydd ganddynt symptomau COVID-19, a chynhelir archwiliadau pellach am symptomau pan fydd y claf yn cyrraedd y clinig.

Esboniodd y rheolwr cofrestredig fod cleifion presennol wedi parhau i gael eu hapwyntiadau archwilio gyda staff clinigol o bell tra roedd y clinig ar gau. Anfonwyd unrhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn yn ddiogel at gleifion drwy wasanaeth dosbarthu cofnodedig.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Gwelsom bolisiau rheoli heintiau, rhestrau glanhau a hylendid a mynediad at hyfforddiant.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod y trefniadau atal a rheoli heintiau a'r trefniadau cadw tŷ a oedd ar waith yn y clinig wedi'u hamlinellu mewn polisi Atal a Rheoli Heintiau Cyffredinol. Nodwyd gennym fod y polisi wedi'i greu ym mis Ebrill 2020 a'i fod yn adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol ar leihau achosion o drosglwyddo COVID-19 drwy brosesau golchi dwylo effeithiol a defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE). Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig drefniadau glanhau addas yn unol â'r polisi, a gwelsom fod amserlenni glanhau am y tri mis diwethaf wedi'u cwblhau a oedd yn nodi'r tasgau glanhau a gyflawnwyd mewn ardaloedd gwahanol o'r clinig.

Gwelsom hefyd Archwiliad o'r Rhestr Wirio Rheoli Heintiau a gwblhawyd ym mis Rhagfyr 2020. Roedd y rhestr wirio yn gweithredu fel archwiliad er mwyn sicrhau bod y trefniadau a nodwyd yn y polisi Atal a Rheoli Heintiau Cyffredinol ar waith. Ni nodwyd unrhyw broblemau.

Dywedwyd wrthym fod ardal diheintio dwylo wedi'i lleoli ym mynedfa'r clinig a bod PPE priodol ar gael i'r staff. O ganlyniad i'r trefniadau cadw pellter cymdeithasol sydd ar waith yn y clinig, mae'n ofynnol i staff a chleifion wisgo masg wyneb yn unig. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig na fu unrhyw broblemau o ran cael gafael ar ddigon o PPE drwy gydol y pandemig.

Gwelsom dystiolaeth bod yr holl aelodau staff yn y clinig wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus² (DPP).

Gwnaethom drafod a oedd y staff yn y clinig wedi cael hyfforddiant neu gymorth ychwanegol er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â darparu gofal yn ystod COVID-19. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod fideos canllaw wedi cael eu dangos i'r holl staff ar dechnegau golchi dwylo effeithiol a sut i wisgo a diosg PPE yn briodol. Hefyd, darparwyd copi o Aseiad Risg Diogel COVID-19 i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn deall y newidiadau sydd ar waith yn y clinig. Gwelsom dystiolaeth i ddangos llofnodion y staff a oedd yn cadarnhau eu bod wedi ymgymryd â'r hyfforddiant a darllen yr aseiad risg.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

² Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yw'r broses o ddogfennu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad a gafwyd yn ffurfiol ac yn anffurfiol er mwyn helpu i wella diogelwch ac ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg diweddar a gofyn i'r lleoliad am y newidiadau a wnaed mewn ymateb i COVID-19 er mwyn cynnal arferion diogel.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom bolisi staff Meddygol Adnoddau Dynol ac roedd yn nodi gweithdrefnau addas i'w dilyn er mwyn recriwtio aelodau newydd o staff clinigol. Roedd yn disgrifio'r gwiriadau cyn cyflogi y byddai'r clinig yn eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff clinigol yn meddu ar y cymwysterau addas a'u bod wedi'u diogelu i weithio gyda chleifion. Gwelsom fod pob aelod o'r staff presennol wedi cwblhau'r hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau, megis diogelu, iechyd a diogelwch a thriniaeth cynnal bywyd sylfaenol. Cawsom wybod bod deunydd dysgu a'r wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19 yn cael eu cyfleu i'r staff drwy gyfarfodydd tîm, taflenni gwybodaeth a thrwy e-bost.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod polisi diogelwch COVID-19 wedi'i ddatblygu i roi gwybod i'r staff am y rheolau i'w dilyn i leihau'r risg o ledaenu'r haint. Gwelsom ei fod yn amlinellu'r hyn y dylai'r staff ei wneud pe bai ganddynt symptomau, ac yn disgrifio'r trefniadau hunanynysu sy'n ofynnol cyn y gall y staff ddychwelyd i'r gwaith. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig wedi cynnal asesiad risg ac wedi trafod y risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 gyda phob aelod o'r staff; arweiniodd hyn at un aelod o'r staff yn newid ei batrwm gweithio fel ei fod ond yn ymgymryd â thasgau gweinyddol ar y dyddiau pan oedd y clinig ar gau er mwyn osgoi'r risg y byddai cleifion yn trosglwyddo'r haint. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd yr un aelod o'r staff wedi bod yn absennol yn ystod y pandemig, a bod hyn wedi golygu na fu effaith ar y gwasanaethau i gleifion.

Gwnaethom edrych ar y prosesau sydd ar waith i gynnal arferion gweithio diogel a sicrhau y rhoddir gofal i gleifion yn ddiogel. Gwelsom fod polisi Storio ac Atebolrwydd Meddyginiaethau ar waith a oedd yn nodi gweithdrefnau a threfniadau'r practis mewn perthynas â thrin meddyginiaethau, eu cadw'n ddiogel a'u gwaredu. Gwnaethom edrych ar y polisi ar gyfer Asesu, Rhoi Diagnosis a Thrin Cleifion a gwelsom ei fod yn darparu disgrifiad cynhwysfawr o'r trefniadau sydd ar waith yn y clinig. Cawsom sicrwydd y byddai'r broses a ddisgrifiwyd gan y polisi yn galluogi'r cleifion i ddeall y risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'u triniaeth colli pwysau cyn iddynt roi cydsyniad i ddechrau'r rhaglen.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig gopi o'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben i ni, a oedd yn cynnwys y wybodaeth hanfodol sy'n ofynnol gan y rheoliadau. ³

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

³ Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben, sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.